# SAR (Cais Gwrthrych am Wybodaeth)

# Canllaw

## Beth yw Cais Gwrthrych am Wybodaeth?

Mae gan unigolyn yr hawl i ofyn i sefydliad am gopïau o'i wybodaeth bersonol ar lafar neu'n ysgrifenedig. Gelwir hyn yn hawl mynediad ac yn fwy cyffredinol, dywedir Cais Gwrthrych am Wybodaeth.

## Cael Cais Gwrthrych am Wybodaeth

Gall Cais Gwrthrych am Wybodaeth ddod i law gan riant, aelod o staff neu unigolyn arall y mae'r ysgol yn cadw gwybodaeth amdano.

Mae'n rhaid i'r ysgol gydnabod bod y cais wedi dod i law a throsglwyddo'r cais i'r person priodol cyn gynted â phosibl.

Boed y cais wedi ei gyflwyno ar lafar neu'n ysgrifenedig, sicrhewch eich bod yn deall yn glir yr hyn y mae'r unigolyn wedi gofyn amdano neu gofynnwch am eglurhad priodol.

Os yw'r ceisydd yn gwneud Cais Gwrthrych am Wybodaeth ar ran disgybl neu unigolyn arall, sicrhewch fod ganddo'r awdurdod i wneud hynny. Er enghraifft, gall rhiant wneud cais ar ran plentyn y mae ganddo gyfrifoldeb rhiant drosto.

Ar ôl i'r ysgol gael Cais Gwrthrych am Wybodaeth, mae'n bwysig bodloni'r terfyn amser statudol sef un mis calendr. Fodd bynnag, gall Cais Gwrthrych am Wybodaeth gael ei ymestyn am ddau fis arall os yw'n gymhleth neu os oes nifer o geisiadau wedi dod i law oddi wrth yr unigolyn. Fodd bynnag, rhaid rhoi gwybod i'r unigolyn am hyn cyn pen mis ar ôl i'r cais hwn ddod i law ac egluro pam mae angen gwneud hynny.

Os oes gennych amheuon ynghylch pwy yw'r sawl sy'n gwneud y cais, gallwch ofyn am ragor o wybodaeth. Fodd bynnag, mae'n bwysig eich bod ond yn gofyn am wybodaeth sy'n angenrheidiol i gadarnhau pwy ydynt. Y peth sy'n bwysig ydy cymesuredd.

Mae angen i chi roi gwybod i'r unigolyn cyn gynted â phosibl bod angen mwy o wybodaeth ganddo i gadarnhau pwy ydyw cyn ymateb i'w gais. Mae'r cyfnod ar gyfer ymateb i'r cais yn dechrau pan gewch yr wybodaeth ychwanegol.

# SAR (Cais Gwrthrych am Wybodaeth)

# Canllaw

### Prosesu'r Cais Gwrthrych am Wybodaeth

Casglwch y data y gofynnwyd amdano. Efallai y bydd hyn yn gofyn am chwilio mewn systemau ffeilio, fformatau a systemau/cronfeydd data niferus yn yr ysgol, yn ogystal â ffeiliau archif a ffolderi e-bost.

Peidiwch â darparu dogfennau gwreiddiol i'r sawl sy'n gwneud y cais, bydd angen i chi wneud copïau o ddogfennau er mwyn dethol y data perthnasol.

Hawl i'w ddata personol ei hun yn unig sydd gan unigolyn, ac nid i wybodaeth sy'n ymwneud â phobl eraill. Mae'n bwysig golygu'r dogfennau fel nad oes gwybodaeth trydydd parti ynddynt. Mae hyn yn cynnwys unrhyw wybodaeth a allai o bosibl ddatgelu pwy yw'r unigolyn. **I gael rhagor o wybodaeth am olygu, edrychwch ar ein canllawiau ar polisi golygu.**

### Rhoi'r wybodaeth

Bydd angen i chi ystyried sut y byddwch yn darparu'r dogfennau neu a ddylech gymryd unrhyw ragofalon diogelwch e.e. cadarnhau cyfeiriad, anfon drwy bost arbennig.

Mae'n ddefnyddiol cadw copi o'r wybodaeth am gyfnod byr er mwyn gallu ymateb i unrhyw ymholiadau neu geisiadau pellach.